Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen 5ed Fawrth 2024

Croeso ac Ymddiheuriad - Rhoddwyd Croeso gan y Cadeirydd, Jane Pierce a gair o weddi gan Rhian Evans-Hill

Presennol - Cadeirydd Jane Pierce ynghyd a'r Cynghorwyr, Rhian Evans-Hill, Elwyn Jones, Gareth Griffiths, Phyllis Ellis, Sasha Williams, Elen George.

Ymddiheuriadau - Ynyr Parri, Idris Thomas, Elfed Wyn Williams, Emma Chappell, Dawn Parry, Gareth Hughes.

Bu i Lowri James fethu cysylltu dros y we.

Croesawyd y Cynghorydd Berwyn Parry Jones.

Datgan Buddiant - Dim

Cofnodion 6ed Chwefror 2024

Cafwyd y Cofnodion yn gywir a nodwyd fod yr holl benderfyniadau wedi eu gwneud yn unfryd gan Y Cyngor:

Phyllis Ellis (1) Gareth W Griffiths (2)

Materion o'r Cofnodion

Cysgodfa Bws Dinorwig - Yn dilyn archwiliad o'r gysgodfa mae'n ymddangos fod mwy o waith nac y meddyliwyd ar y gysgodfa. Mae'r clerc wedi cysylltu â'r Cyngor Sir am asesiad diogelwch ynghyd a chysylltu am bris am y cyfan gan gontractwr.

Gohebiaeth a Materion Eraill

Diweddariad Prosiect Natur Llanddeiniolen - Derbyniwyd llythyr gan Angharad Owen o'r prosiect, sydd yn awyddus i ddod draw i roi diweddariad i ni. Byddwn yn ei gwahodd i'r cyfarfod nesaf yn Ebrill, ac yn edrych ymlaen At gael yr hanes.

Rhodd - Mae'r Cyngor wedi derbyn rhodd ariannol o ystâd y diweddar Mr Kenneth Harris. Brodor wedi ei eni a'i fagu yn Neiniolen oedd Mr Harris. Wedi symud o'r ardal i weithio, ac yna wedi penderfynu dychwelyd yn ôl i'w gynefin i ymddeol. Mae'r Cyngor yn ddiolchgar iawn iddo, a dros y misoedd nesaf bydd y Cyngor yn ystyried beth fydd yn deilwng i wneud gyda'r arian.

Cadeirydd…….

Cynllunio

Dyma'r ceisiadau a dderbyniwyd:

C24/0133/18/LL - Tir tu cefn I Garej Tan y Foel

Codi sied amaethyddol ar gyfer storio peiriannau / offer amaethyddol a bwyd anifeiliaid - Dim sylwadau

C24/0103/18/LL - Parciau Rhos, Bethel

Codi adeilad amaethyddol Newydd ar gyfer storio peiriannau - Dim Sylwadau

C24/0083/18/LL - Cartref Nyrsio Penisa'r-waun

Newid defnydd o gartref gofal i hostel gwasanaethol ar gyfer defnydd gwyliau ynghyd a llety byw warden cysylltiedig

Penderfynwyd gwrthwynebu ar sail:

1. Gôr ddatblygiad
2. Problemau trafnidiaeth ffyrdd cul i gymaint mwy ar y ffordd
3. Bydd yn amharu ar fwynderau preswylwyr cyfagos
4. Gormodedd o lefydd gwyliau yn yr ardal ac oes wir angen safle mor fawr?

C24/0102/18/DT - Isfryn, 3-4 Rhes Isaf, Rhiwlas

Gosod pwmp gwres ffynhonnell aer yng nghefn yr eiddo - Dim Gwrthwynebiad

Adroddiad Blynyddol

Nodwyd fod yr adroddiad a oedd y clerc wedi ei baratoi yn dangos yn gyflawn waith y Cyngor dros y Flwyddyn ddiwethaf, a beth yw blaenoriaethau am eleni. Gofynnwyd I'r clerc ychwanegu derbynneb o'r rhodd Mr Kenneth Harris cyn rhoi sêl bendith i'r adroddiad.

<u>O Gwmpas y Bwrdd</u>

Bryn Tirion, Penisa'r-waun - Tyllau Mawr ar ffordd y stad angen eu llenwi. Y clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd.

Ysgol Bethel - Marciau paent ar y ffordd o flaen yr ysgol wedi gwisgo, a dim posib gweld y marciau. Y clerc i gysylltu â'r Cyngor er mwyn cael eu hail beintio.

Cadeirydd……..

Mynwent Capel Bethel

Mae'r perchennog Newydd wedi codi cerrig beddi teuluoedd yn y fynwent ac wedi gosod carafán ar y safle. Er bod y cerrig beddi wedi eu gosod o amgylch y waliau, teimlai'r cynghorwyr fod angen cael cadarnhad ar be gytunwyd ar y pryd ynglyn a'r fynwent. Hefyd mae llechi'r to yn hongian ar ochor y to uwchben y llwybr cyhoeddus sydd yn mynd heibio. Oherwydd iechyd a diogelwch, mae'r llwybr wedi cael ei gau, ond nid dyma yw'r ateb, ac mae Angen diogelu'r llechi, fel bod y llwybr yn cael defnydd eto. Gofynnwyd I'r clerc gysylltu â'r adran gynllunio, fel eu bod yn gallu gweithredu ynglyn a'r to, ac fel bod y Cyngor Cymuned gyda'r wybodaeth gywir ynglyn a be gytunwyd a'r fynwent i allu ymateb yn gyhoeddus.

Cadarnhau Taliadau:

678 - £275.00

679 - £156

680 - £156

681 - £156

682 - £156

683 - £156

684 - £156

685 - £156

686 - £156

687 - £156

688 - £156

689 - £486

Bydd Cyfarfod nesaf ar y 9fed Ebrill

Cadeirydd……..